Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Canllawiau Cerdded
Walks Guide

7

# Llwybr Copr Glasdir
# Glasdir Copper Trail



## UCHAFBWYNTIAU

**Dewch o hyd i hen waith copr yn cuddio mewn lleoliad heddychlon.**

O brif faes parcio Glasdir, dilynwch yr arwyddbyst coch drwy'r lle picnic i lawr i Afon Babi. Cafodd yr afon ei henwi, yn ôl chwedloniaeth leol, ar ôl i un o'r tylwyth teg ddwyn babi gwrach a rhoi bychan benthyg yn ei le. Yna mae'r llwybr yn gwneud cylch o gwmpas yr hen fwynglawdd copr ar ochr y bryn mewn cyfres o derasau cerrig uchel.

Gallwch hefyd ymweld â Glasdir ar hyd llwybr hygyrch o faes parcio Pont Llam yr Ewig. Oddi yma dilynwch yr arwyddbyst glas ar hyd hen dramffordd i'r olygfan uwchlaw'r gweithfeydd. Lawrlwythwch y traciau clywedol MP3 a gwrandewch ar stori'r gweithwyr copr, mae hyn ar gael ar gyfer y ddau lwybr.

## HIGHLIGHTS

**Discover an old copper works hidden in a quiet rural setting.**

From the main Glasdir Car park, follow the red waymarkers through the picnic site down to the Afon Babi. The river got it's name, according to local folklore, after a fairy stole a witch's baby and replaced him with a changeling child. The trail then takes in a circuit of the old copper mine set into the hillside in a series of high stone terraces.

You can also visit Glasdir on an accessible trail from the Pont Llam yr Ewig car park. From here follow the blue waymarkers along an old tramway to the viewpoint above the mine workings. Download the MP3 audio trail and listen to the story of the copper works - available on both walks.




## Allwedd / Map Key

- Llwybr Copr Glasdir (hygyrch) / Glasdir Copper Trail (accessible)
- Llwybr Copr Glasdir / Glasdir Copper Trail
- Grisiau / Steps
- Maes picnic / Picnic area
- Mainc / Bench
- Maes parcio / Car park
- Maes parcio hygyrch / Accessible car park



**Dilynwch y symbolau arwyddbost glas neu goch.**

| | Glas | Coch |
|---|---|---|
| **Dechrau:** | Maes Parcio Pont Llam yr Ewig | Maes Parcio Glasdir |
| **Gradd:** | Hygyrch | Cymedrol |
| **Amser:** | ½ awr | ¾ awr |
| **Pellter:** | ½ milltir/850m | ¾ milltir/1.2km |
| **Dringo:** | Gwastad | 70m |

**Disgrifiad:** Mae'r llwybr hygyrch ag arwyddbyst glas yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn. Mae'n 1.5m o led, yn wastad a chanddo arwyneb da gyda mannau pasio bob 50m a mannau gorffwys bob 150m.

Mae'r llwybr coch yn aml yn llai na 1m o led mewn mannau, ar arwyneb garw, anwastad, ble gallwch ddisgwyl gweld mwd, creigiau a gwreiddiau coed. Ceir sawl set o risiau ar y dringfeydd a disgynfeydd serth drwy'r hen weithfeydd.

**Follow the blue or red waymarker symbols.**

| | Blue | Red |
|---|---|---|
| **Start:** | Pont Llam yr Ewig Car Park | Glasdir Car Park |
| **Grade:** | Accessible | Moderate |
| **Time:** | ½ hour | ¾ hour |
| **Distance:** | ½ mile/850m | ¾ mile/1.2km |
| **Climb:** | Level | 70m |

**Description:** The blue waymarked accessible trail is suitable for wheelchairs. It is 1.5m wide, flat, well surfaced with passing bays every 50m and resting points every 150m.

The red trail is often less than 1m wide in places, on an unmade, uneven surface, where you can expect mud, rocks and tree roots. There are several flights of steps on the steep ascents and descents through the old workings.